



CARCHAR EI MAWRHYDI **ABERTAWE**

ADRODDIAD BLYNYDDOL **2012 – 2013**

LLUNIWYD GAN: MRS KAREN ANDREW (Cadeirydd)

DYDDIAD: Cyflwynwyd Awst 2013. (Yn cynnwys y cyfnod diwedd Mai 2012 – diwedd Mai 2013)

ADRAN 1 Rôl statudol yr IMB

1.1

Mae'r Ddeddf Carchardai 1952 a'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn mynnu bod pob carchar a chanolfan symud mewnfudo (IRC) yn cael eu monitro gan Fwrdd Annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Cartref o blith aelodau'r gymuned y mae'r carchar neu ganolfan wedi ei lleoli ynddi.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol yn benodol am:

- (1) Fodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog a theg y rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei garchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) Rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirpwyo awdurdod iddo fel y barna sy'n briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo.
- (3) Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol am ba mor dda y mae'r Carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith a gaiff y rhain ar y rhai yn ei Gystodaeth.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd i gofnodion y carcharor.

ADRAN 2

CYNNWYS

- ADRAN 1 - Rôl statudol yr IMB
- ADRAN 2 - Cynnwys
- ADRAN 3 - Disgrifiad o'r Carchar**
- ADRAN 4 - Crynodeb Gweithredol**
- ADRAN 5 - Yr Adroddiad**
Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Addysg, Dysgu a Sgiliau
Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl
Gweithgaredd Pwrpasol
Ailsefydlu
Cystodaeth Ddiogelach
Arwahanu, Gwahanu a Gofal
Gwasanaethau Preswyl
- ADRAN 6 - Ardaloedd eraill y Carchar**
Derbyn a Sefydlu
Caplaniaeth
Caplaniaeth Gymunedol
- ADRAN 7 - Gwaith yr IMB**
IMB yn Abertawe
Ceisiadau i'r IMB
Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd o'r Bwrdd
Anerchiadau
Ystadegau'r Bwrdd

ADRAN 3 Disgrifiad o'r Carchar

3.1 Mae Carchar Ei Mawrhydi Abertawe yn Garchar lleol Categori B, sy'n dal oedolion gwryw ac oedolion ifanc. Mae Carcharorion o Oedolion yn un ai yn rhai a remandiwyd i'r ddalfa gan y llysoedd tra maent yn disgwyl eu prawf, neu maent yn garcharorion a gollfarwyd ac yn gyffredinol yn bwrw dedfryd o lai na dwy flynedd. Mae pob oedolyn ifanc yn garcharor ar remand.

3.2 Adeiladwyd CEM Abertawe ym 1861, ac yn strwythurol nid yw'r bloc preswyl wedi newid, er bod diweddarau ac uwchraddio wedi digwydd. Dyluniwyd Abertawe i ddal 219 o garcharorion ond oherwydd cynydd parhaus ym mhoblogaeth carchardai, mae gan Abertawe gapasiti gweithredol o 435.

3.3 Eleni gwelwyd cyflwyno Adain Adsefydlu Cyffuriau ac Adain Rhydd o Gyffuriau ac o ganlyniad, ail-leolwyd yr Adain Sefydlu. Mae parth teuluol newydd ar gyfer ymwelwyr wedi ei agor.

3.4 Mae parch tuag at unigolion o'r pwys mwyaf yn CEM Abertawe lle mae perthnasau rhwng y staff a'r carcharorion yn ganolog i les y carchar. Mae'r staff yn chwarae rôl hanfodol mewn cynnal amgylchedd sad, ac uwchben popeth, diogel. Nod y carchar, trwy'r amrywiol raglenni a gweithgareddau positif sydd ar gael, yw galluogi carcharorion ateb ac felly lleihau eu hail-droseddu ac i gynorthwyo a'u hailsefydliad. Cyflawnir hyn trwy bartneriaethau effeithiol gydag ystod eang o gyrrff statudol, preifat a gwirfoddol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

CYDRADDOLDEB A CHYNWYSIANT

4.1.1 Mae LIC [Llywodraeth Cymru] wedi ei hwrywmo i ddwy-ieithrwydd ac felly mae cyflwyno bathodynau sy'n gwneud swyddogion sy'n gallu'r Gymraeg yn adnabyddadwy yn fesur pwysig.

4.1.2 Mae nifer cynyddol o garcharorion a adnabyddir sydd ag anhawsterau dysgu tra phenodol wedi tanlinellu'r angen am hyfforddiant o'r staff.

4.1.3 Profodd y nifer cynyddol o garcharorion hŷn [50+] a rhan a chwareuwyd gan Age Cymru i fod yn addysgiadol iawn ac arweiniodd at rai newidiadau bach ond sylweddol i gefnogi'r carcharorion hynny.

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

4.2.1 Dangosodd adroddiad llwyddiannus gan Estyn yn 2012 y gwelliannau a wnaethpwyd i'r adran ers yr arolygiad diwethaf.

4.2.2 Yn anffodus, methiant fu'r System Campws Rhithwir hyd yma oherwydd diffygion technegol. Gobeithiwyd byddai'n cefnogi dysgu a darparu cyfleoedd swyddi ar-lein, y ddau yn hanfodol mewn lleihau ail-droseddu.

4.2.3 Mae ail-drefnu'r gweithdai wedi dechrau er mwyn mwyhau gweithgareddau ymysg y carcharorion.

GOFAL IECHYD A IECHYD MEDDWL

4.3 Mae gan y Bwrdd rhai pryderon ynglŷn â mynediad at wasanaethau optegol a deintyddol. Gall rhestrau aros fod yn annerbyniol o hir a gall ymweliadau gan y gweithwyr proffesiynol iechyd hyn ymddangos yn anaml.

GWEITHGAREDD PWRPASOL

4.4.1 Mae'r Prosiect Ail-gylchu gwyb yn darparu grŵp bach o garcharorion â sgil a chymhwyster gallent eu defnyddio wedi iddynt gael eu rhyddhau.

4.4.2 Mae'r Bwrdd yn siomedig, mai oherwydd cyfyngiadau ariannol, nid yw pob gweithdy yn weithredol. Mae rhaid i bob gweithdy gael ei ddefnyddio mewn ffordd bwrpasol i fwyhau gweithgareddau gan y carcharorion ac i'w darparu â sgil a all eu galluogi i ganfod gwaith ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

AILSEFYDLU

4.5 Mae cysylltiadau cryf gydag ystod o asiantaethau ynghyd â rhaglenni wedi eu targedu yn helpu paratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau. Cymeradwyir y cysylltiad cryf â thîm y Gaplaniaeth Cymunedol.

CYSTODAETH DDIOGELACH

4.6.1 Yn dilyn y tair marwolaeth trasig yn Abertawe, mae'r Bwrdd yn falch o nodi bod yr ymgymermir â hyfforddiant gloywi ar hunan niwedio.

4.6.2 Y mae, fodd bynnag, bryder na ellir canfod safle ar gyfer y cyrsiau ymsefydlu wythnosol byr sy'n hysbysu'r carcharorion am waith y Samariaid/Gwrandawyr.

4.6.3 Mae'r Bwrdd yn falch o nodi bod nifer o Wrandawyr newydd wedi eu hyfforddi. Mae'n rhaid canmol y gwaith amhrisiadwy a wneir gan y carcharorion hyn wrth gefnogi eu cyd-garcharorion.

ARWAHANU

4.7.1 Mae'r Bwrdd yn falch o nodi'r canlyniad positif o archwiliadau diweddar i mewn i Arwahanu a'r Defnydd o Rym.

4.7.2 Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd rhai pryderon, mai er iddo gael ei hysbysu o adolygiadau o arwahanu a gwneir pob ymdrech gan aelodau i fod yn bresennol, meant yn cael eu hail-drefnu'n aml ar fyr rybudd.

4.7.3 Mae cynydd sylweddol yn y nifer o ddyfarniadau ac o ganlyniad cryn gynydd yn y nifer o garcharorion yn cael eu arwahanu.

GWASANAETHAU PRESWYL

4.8.1 Mae'r Bwrdd unwaith eto yn codi pryderon ynmglŷn â gorlenwi. Mae Abertawe o hyd yn un o'r carchardai mwyaf orlawn yn y wlad. Dyluniwyd y carchar i ddal 219 o garcharorion ac mae'n dal 435. Mae hyn yn golygu ychydig o gelloedd sengl gyda carcharorion yn rhannu celloedd a ddarparwyd ar gyfer defnydd un person. Mae hyn yn hollol annerbyniol ac yn anlanwaith i garcharorion orfod bwyta eu brydau yn agos iawn at doiled y gell.

4.8.2 Mae'r Adain Adsefydlu Cyffuriau ac Adain Rhydd o Gyffuriau i'w gweld yn cael effaith bositif ar garcharorion er ei bod ar hyn o bryd yn rhy gynnar i asesu eu heffaith hir-dymor yn llawn.

4.8.3 Gall y Rheolwr Arlwygo a'i staff fod yn falch yn haeddiannol o gadw eu graddfa o bum seren am hylendid. Mae problemau a oedd yn ymwneud â toriadau i'r gyllideb a oedd yn effeithio ar y maint o fwyd a ddarparwyd, yn enwedig amser cinio i'w gweld wedi eu datrys.

MARWOLAETH YN Y DDALFA

4.9 Mae'n siomedig iawn ac yn drist gorfod adrodd unwaith yn rhagor bod marwolaeth yn y ddalfa wedi digwydd. Mae hefyd yn werth nodi, unwaith eto, mai yn yr Adain Sefydlu y bu i hyn ddigwydd.

Adolygwyd trefniadau sefydlu ac adnoddau'r adain yn drylwyr ond y llynedd, er gweaethaf hyn, mae gennym marwolaeth drasig arall.

Gan fod y Crwner eto i adrodd ar y digwyddiad hwn, byddai hi'n amhriodol i wneud sylwadau pellach ar y mater hwn.

Mae'r Bwrdd yn derbyn os yw person yn wirioneddol benderfynol ar ladd ei hun mae bron yn amhosibl i'w stopio ond mae'n teimlo fod llawer o geisiadau, mewn un ffordd neu'r llall, yn "alwad am help" yn ystod dyddiau cynnar yn y ddalfa. Gobeithir bydd cyflwyno'r Adain Adsefydlu Cyffuriau yn helpu'n sylweddol gan gall y sefyllfaoedd hyn eu gwaethygu oherwydd materion o gam-ddefnyddio sylweddau. Mae gan y Gwasanaeth Carchar a thrwy hynny y Gweinidog dyletswydd gofal i bob carcharor sy'n bwrw ei ddedfryd. Mae record o farwolaethau yn y ddalfa yn Abertawe yn annerbyniol.

ADRAN 5- Yr Adroddiad

CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

5.1.1 Mae newid yn y personél arwain wedi body n ystod cyfnod yr adroddiad. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi efferitho'n negyddol ar y tîm. Mae'r polisïau priodol yn eu lle. Mae cyfarfodydd misol o'r tîm gweithredol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu mynychu'n dda bob tro.

Mae hefyd cyfarfodydd ffiwm carcharorion ar gyfer pob carcharor sy'n dod o dan y categorïau canlynol: yr anabl, dinasyddion tramor, carcharorion hŷn [50+], ethnig lleiafrifol Prydeinig, hoyw/trawsryw.

5.1.2 Lleolir cynrychiolwyr carcharorion ar y rhan fwyaf o adain.

Mae'r rhaglen atebion ieithoedd a ddysgwyd ar gael i ddinasyddion tramor a rhai nad ydyn gallu siarad Saesneg. Mae staff sy'n gallu'r Gymraeg yn gwisgo bathodynau fel eu bod yn haws i'w hadnabod. Mae'r rhaglen ESOL hefyd ar gael.

5.1.3 Mae problem wedi codi ynglŷn â bwydlenni i garcharorion nad ydynt yn gallu siarad Saesneg. Mae'r mater hwn yn cael ei ateb ar hyn o bryd a gobeithir gellir dyfeisio fformat bwydlen a fydd yn datrys hyn.

5.1.4 Ysgrifennir cynlluniau gofal ar gyfer y carcharorion hynny ag anabledau penodol ac o ganlyniad o un cynllun o'r fath, cafwyd ystod mwy o lyfrau awdio a llyfrau â phrint bras.

5.1.5 Ym mis Ionawr, ymwelodd Age Cymru â'r carchar a gwnaethpwyd nifer o argymhellion, gyda rhai ohonynt yn cael eu mabwysiadu. Hefyd, fe ddarparasant cotiau a hetiau i garcharorion hŷn eu gwisgo yn ystod misoedd y gaeaf.

5.1.6 O ganlyniad i niferoedd cynyddol o garcharorion yn cyrraedd ac wedi eu hadnabod ag anhawsterau dysgu ac anabledau penodol, mae'r tîm yn cydnabod bod angen datblygu dealltwriaeth y staff o'r rhain fel gallant gefnogi'r carcharorion orau tra meant yn CEM Abertawe.

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

5.2.1 Profodd ymweliad dilynol gan ESTYN ym mis Rhagfyr 2012 a'r adroddiad a'i canlynodd dilyniant da yn yr adran dysgu a sgiliau. At ei gilydd, roedd yr arolygydd yn falch iawn bod y rhanm fwyaf o argymhellion a oedd ESTYN wedi eu gwneud o'r blaen wedi gweld gwelliant ynddynt. Roedd yr adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Ebrill yn adrodd bod pob un o'r 16 nod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi eu cyrraeddac mewn rhai achosion wedi eu pasio.

5.2.2 O fis Ebrill, mae'r newidiadau gofynnol o'r ail-strwythuro Teg a Chynaliadwy cenedlaethol wedi digwydd. Yn yr adran mae hyn yn golygu bod y Dirpwy Rheolwr yn symud ar draws i rôl addysgiadol ac mae Pennaeth presennol Dysgu a Sgiliau yn awr yn gyfrifol am reoli strategol a reolaeth weithredol dydd i ddydd yr adran.

5.2.3 Nid yw'r system Campws Rhithwir a roddwyd ar waith dros 12 mis yn ôl i gefnogi dysgu a rhoi mynediad at gyfleoedd swyddi 'ar-lein' wedi ei defnyddio'n effeithiol oherwydd diffygion technegol sy'n parhau. Mae gweinydd newydd wedi ei archebu a gobeithir bydd hyn yn datrys rhai o'r problemau hyn. Disgwylir cael uwchraddiad ym mhob carchar yng Nghymru tuag at ddiwedd 2013.

5.2.4 Mae'r tîm meincodi wedi gwneud argymhellion er mwyn lleihau costau a chyflwyno 'Ffyrdd Newydd o Weithio' ym mhob sefydliad. Bydd fwy o lefydd gweithgareddu'n cael eu cyflwyno. Mae rôl Gweithdy 1 o raglen sefydlu Dysgu a Sgiliau ac ardal hyfforddi BICs wedi ei ddatgymalu ac fe fydd yn gydoddfa ar gyfer y contract allanol Opella. Bydd rhaid i Siop 2 a Siop 4 hefyd newid er mwyn mwyhau y nifer o lefydd gweithgareddau i garcharorion.

5.2.5 Cynhaliwyd cyfweiliadau'n ddiweddar ar gyfer swydd athro llawn amser/athrawes lawn amser. Gobeithir llenwi'r swydd erbyn mis Gorffennaf 2013. Gadawodd athrawes lawn amser ym mis Mai ar ôl cymryd diswyddaeth gwirfoddol. Mae dwy athrawes ran amser yn cymryd diswyddaeth gwirfoddol a disgwylir iddynt adael ar ddiwedd mis Mai.

GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

5.3.1 Ar hyn o bryd nid oes pennaeth uniongyrchol o iechyd gofal yn CEM Abertawe. Deellir bydd rhywun yn cael ei benodi yn y dyfodol agos. Rheolir y gofal iechyd o ddydd i ddydd gan ddau nyrs Band 7. Darperir gofal iechyd ar hyn o bryd gan:

2 Band 7 Nyrs

2 Band 6 Nyrs

11 Band 5 Nyrs

Mae dwy o'r rhain yn rhan-amser

Mae dwy ar ddyletswydd nos

Ni ddefnyddir nyrsus asiantaeth

5.3.2 Mae rhaid nodi nad oes adnodd ar gyfer cleifion mewnol yn CEM Abertawe. Pe bai'r angen yn codi, mae gennym ddefnydd o ddau ysbyty lleol ac mae adnodd cleifion mewnol yn CEM Caerdydd.

5.3.3 Mae meddyg teulu yn ymweld yn ddyddiol. Er bod gan garcharorion fynediad at ddeintyddion, podiatryddion, optegwyr a gwasanaethau seiciatrig, gall fod amseroedd disgwyl dra hir ar gyfer y deintydd a'r optegydd. Mae cysylltiadau â'r Nyrs Allanol ar gyfer Iechyd Meddwl a Phobl Bregus mewn Llety, a'r Feddygfa ar y Stryd Fawr lle gall carcharorion y NFA fynychu wedi iddynt gael eu rhyddhau.

5.3.4 Mae hefyd mynediad at wasanaeth tu allan i oriau arferol y meddyg teulu. Mae ymweliadau rheolaidd oddi wrth arbenigwyr iechyd rhywiol. Mae amseroedd disgwyl yn debyg i rai yn y gymuned, ond gallant amrywio yn dibynnu ar yr arbenigedd a gyfeirwyd. Gan gadw mewn cof nad oes unrhyw adnodd triniaeth cleifion mewnol yn CEM Abertawe, ymdrinir â materion gofal iechyd yn effeithiol ac yn effeithlon.

GWEITHGAREDD PWRPASOL

5.4.1 Yn ogystal â gwaith sydd ar gael o dan y mentrau dysgu a sgiliau, mae gwaith ar gael yn y ceginau, y Gyfnewidfa Ddillad, y tŷ golchi fel glanhawyr ar yr adain, peintio ac addurno, yn yr iardiau, fel glanhawyr llestri, barbwyr ac fel clercod llythyrau. Mae hefyd gwaith ar gael ar gyfer cynrychiolwyr cyfartaledd a thai, pan fo angen. Mae prosiect ail-gylchu gwych sy'n darparu gwaith ar gyfer wyth carcharor ac yn cyflwyno nhw â sgiliau a all fod yn ddefnyddio pan y'u rhyddheir.

5.4.2 Mae pedwar gweithdy, ond dim ond tri sy'n weithredol ar hyn o bryd. Y mwyaf o'r rhain yw'r siop wnïo sy'n cyflogi tri deg o garcharorion llawn amser ar gyfartaledd.

AILSEFYDLU

5.5.1 Nod y tîm ailsefydlu yw sicrhau bod pob carcharor wedi ei baratoi'n briodol ar gyfer ei ryddhau ac o wneud hynny, leihau ymddygiad ail-droseddol. Maent yn anelu at sicrhau bod gan bob carcharor lety a cheisiant ganfod swyddi, lle fo hynny'n bosibl. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth ar sut i gael mynediad at ystod o fudd-daliadau.

5.5.2 Darperir cyrsiau rheoli dicter ar gyfer y carcharorion hynny sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag angen cyrsiau o'r fath trwy gynllynio dedfryd. Mae grŵp ar gyfer carcharorion hŷn sydd dros 50 yn rhedeg ar y cyd â grŵp sydd wedi ei anelu'n benodol at helpu carcharorion sydd yn gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Mae cysylltiadau cr yfag ystod o asiantaethau.

5.5.3 Cynhelir ymweliadau gan aelodau o deuluoedd cyn rhyddhau a rhedir cwrs o'r enw Storybook Dads gydag un o'u nodau o ail-adeiladau Cynhelie cwrs mewn sgiliau rhienta hefyd.

5.5.4 Mae'r tîm yn cyd-weithio â thîm y Gaplaniaeth Gymunedol yn Abertawe sydd hefyd yn cefnogi carcharorion sydd wedi giofyn yn benodol am eu hymlygiad cyn ac ar ôl eu rhyddhau. Mae aelodau o'r Gaplaniaeth Gymunedol hefyd yn mynychu'r Byrddau Rhyddhau.

CYSTODAETH DDIOGELACH

5.6.1 Bu arolygiad dilynol byr di-rybudd Arolygaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMCIP) ym mis Rhagfyr 2012 a danlinellodd yr angen am ail-hyfforddiant staff mewn monitor hunan niwedio oherwydd y tair marwolaeth trasig trwy law eu hunain sydd wedi digwydd ers yr arolygiad diwethaf yn 2010. Fe fydd Archwiliad Cystodaeth Ddiogelach, fodd bynnag ni phenodwyd dyddiad.

5.6.2 Mae'r Samariaid yn parhau i ymweld â'r carchar yn wythnosol ac maent yn bresennol yn y cyfarfodydd Cystodaeth Ddiogelach misol. Yn anffodus, gohiriwyd y sefydlu wythnosol byr ar sut gall y Damariaid/Gwrandawyr helpu carcharorion a'u teuluoedd ers mis Rhagfyr 2012 gan nad oedd lle addas ar gael. Fodd bynnag, mae'r Samariaid yn parhau i redeg cyrsiau hyfforddi ar gyfer Gwrandawyr newydd ac yn y cwrs diwethaf a gynhaliwyd ym mis Mai 2013, hyfforddwyd un ar ddeg o Wrandawyr

newydd. Ar hyn o bryd yn Abertawe ceir pedwar gwrandawr ar ddeg ac mae'r Samariaid yn rhedeg sesiynau wythnosol i'w dad-frifio.

5.6.3 Ym mis Rhagfyr 2012 ac ym mis Ionawr 2013, cyflwynwyd placiau mewn seremonïau i ddathlu un mlynedd ar hugain o'r Cynllun Gwrandawyr yn CEM Abertawe.

Ym mis Mawrth 201, agorwyd tri deg dau o ddogfennau ACCT, y nifer uchaf a recordiwyd ers 2010. Mae'r ystadegau hyn, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi manylion o ddiwyddiadau treisgar yn dal i gael eu trafod yng nghyfarfodydd misol Cystodaeth Ddiogelach.

ARWAHANU, GWAHANU A GOFAL

5.7.1 Arwahanu yw'r rhan o'r carchar a ymwelir ag ef fwyaf a'i fonitro gan aelodau'r Bwrdd. Mae'r staff yn dra phrofiadol ac yn sicrhau gall aelodau o'r Bwrdd wel a siarad â charcharorion. Mae gwaith papur arwahanu a chofnodion ar gael a hysbysir yr aelod rota'n syth pan yr ail-leolir carcharor i'r uned. Hysbysir y Bwrdd o adolygiadau a gwneir pob ymdrech i fod yn bresennol, fodd bynnag fe'u hail-drefnir hwy'n fynych ar rybudd byr iawn heb hysbysiad.

5.7.2 Mae cynydd sylweddol wedi bod y nifer o ddyfarniadau yn ystod cyfnod yr adroddiad ac o ganlyniad, cynnydd sylweddol yn y nifer o garcharorion yn cael eu gwahanu.

5.7.3 Cododd archwiliad diweddar o Arwahanu a'r Defnydd o Rym ond dau bwynt gweithredu, ill dau yn yn gysylltiedig ag adroddiadau chwarterol.

GWASANAETHAU PRESWYL

5.8.1 Mae'r Bwrdd unwaith eto am flwyddyn arall yn siomedig i adrodd bod Abertawe ymysg un o'r carchardai mwyaf orlawn yn y wlad. Dyluniwyd y carchar i ddal 219 o garcharorion ac ar hyn o bryd mae'n dal 435. Mae hyn yn golygu ychydig o gelloedd sengl ac mae'n annerbyniol ac yn aflan ar gyfer carcharorion i orfod bwyta eu prydau yn agos iawn at doiled y gell.

5.8.2 Ym mis Ionawr, cafodd CEM Abertawe ymweliad gan yr Adran Iechyd Amgylcheddol, a chadwodd ei raddfa o 5 seren ar gyfer hylendid. Mae staff y gegin yn haeddiannol o falch o hyn.

5.8.3 Yn ystod y flwyddyn mae carcharorion wedi cwblhau tri arolwg ar ansawdd bwyd, dewis ac mae canlyniadau'r rhain wedi eu defnyddio i arolygu ymarfer yn adeiladol.

5.8.4 Cynhaliwyd grwpiau ymgynghori'r carcharorion dros y misoedd diwethaf bob dwy wythnos i hysbysu carcharorion am doriadau diweddar i'r gyllideb fwyd, mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol mewn cyfathrebu syniadau o'r ddwy ochr. Arweiniodd y cyfarfodydd hyn a chanlyniadau'r arolygon hyn at ein bwydlen cylch 4 wythnosol, sydd wedi derbyn adborth bositif.

5.8.5 Dros y deuddeg mis diwethaf mae'r adran waith wedi bod yn ymrwymedig mewn paratoi ar gyfer y gwaith adeiladu newydd ac uwchraddio adnoddau cyfredol oddi mewn i'r carchar. Mae rhywfaint o'r gwaith yn cynnwys trwsio y gwaith maen yn nhu blaen y carchar.

5.8.6 Gosodwyd ffenestri adeiniog newydd yn Adain A, cwblhawyd system cyfnewid plateau gwres newydd, gosodwyd unedau cawod newydd yn y gampfa a chwblhawyd gosod rhwydi diogelwch newydd.

Mae gwaith ar yr ystafell dderbynfa newydd i ymwelwyr hefyd wedi ei gwblhau.

5.8.7 Monitrir pob gwiriad Iechyd a Diogelwch trwy gydol y carchar ganswyddogion apwyntiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol. Mae aelodau newydd yn derbyn anerchiad ar Iechyd a Diogelwch a dril tân cyn gynted â phosibl yn ystod eu cyfnod prawf.

ADRAN 6 ARDALOEDD ERAILL Y CARCHAR

DERBYN A SEFYDLU

6.1.1 Mae'r ardal dderbyn â digon o staff at anghenion presennol. Gwelir pob carcharor sy'n dod i mewn i'r carchar gan aelod o'r tîm gofal iechyd cyn gadael yr ardal dderbyn. Mae hyn yn adnabod yn gyflym y rhai sy'n dod i mewn i'r carchar gyda phroblemau meddygol a/neu cyffuriau, a thrwy hynny gallu delio â hwy yn briodol a sydyn. Rhoddir digon o gyfle i bob carcharor gael cawos os dymuna.

6.1.2 Ar gyfer y carcharorion hynny sydd hen y Gymraeg neu'r Saesneg fel mam-iaith, mae gwasanaeth cyfieithu ar y ffôn ar gael. Mae nifer o bosteri a chapsiynnau ar gael yn yr ardal i helpu'r carcharorion ddeall y system. Mae Gwrandawyr ar gael yn y Dderbynfa o 4.30 pm tan y derbynnir y carcharor olaf. Mae'r Gwrandawyr yn cymysgu â'r newydd-ddyfodiad mewn ffyrdd anffurfiol, oni bai y gofynnir yn wahanol. Byddai rhaid i unrhyw garcharor sy'n cyrraedd cyn yr amser hwn ofyn am wasanaethau Gwrandawr ac ymdrinnir â'r cais hwn cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol. Mae lefelau staffio i'w gweld yn ddigonol ar hyn o bryd.

6.1.3 Un o'r problemau a godwyd gan y Bwrdd hwn yn y blynyddoedd blaenorol yw cyrhaeddiad hwyr carcharorion o lysoedd pellenig, oherwydd yn rhannol i anallu sefydliadau agosach i'w cymryd. Mae materion wedi gwella oac mae hyn oherwydd llawer o waith wedi ymgymryd gan y Gwasanaethau Contract Hebryngwyr Carcharorion. Gwirir llinellau amser carcharorionsy'n cyrraedd yn ddyddiol ac mae'r nifer sylweddol o staff a oedd rhaid iddynt weithio'n hwyr wedi ei leihau'n sylweddol.

6.1.4 Ar ôl gadael y Dderbynfa, i ddechrau mae carcharorion yn cael eu lleoli yn yr Adain Sefydlu. Yn naturiol, mae hwn yn Adain dra phrysur a chymeradwyir y staff am berthnasau gweithio ardderchog maent yn adeiladu'n gyflym â'r carcharorion a'r amser mae rhaid iddynt dreulio â phob newydd ddyfodiad hyd ei fod wedi setlo i lawr i fywyd y carchar. Nodir nad oes gan yr Adain hon cawodydd arbennig iddi hi ei hun oddi mewn iddi, ond mae ganddi rai gerllaw.

6.1.5 Mae'r Adain Lleihau Cyffuriau wedi body n weithredol am ychydig dros flwyddyn ac ar y cyfan, mae'n gwneud yn eithaf da. Mae i'w gweld yn enghraifft o beth ellir ei gyflawni oddi mewn i gyllideb fechan ac eto, mae i'w chymeradwyo. Mae gan Abnertawe, y Ddinas, enw cenedlaethol o fod yn fan â defnydd uchel o gyffuriau. Gall yr Adain hon fod yn begwn o obaith ar gyfer y rhai sy'n dewis ymgysylltu â hi.

CAPLANIAETH

6.2.1 Oherwydd ymddeoliad, mae caplan newyddcyn y swydd. Mae'n ymgartefu yn ei rôl anodd. Er gwneir pob ymdrech i sicrhau yr ymdrinnir â phob ffydd, mae anhawsterau sylweddol wedi bod wrth drefnu ymweliadau a mewnbwn gan Imam. Gobeithir bydd hyn yn cael ei ddatrys yn y dyfodol agos. Parheir i ddatblyglu cysylltiadau ag ystod o asiantaethau sy'n cynnig cefnogaeth i garcharorion tra maent yn y ddalfa ac ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae cyrff, fel Victory Outreach, yn ymateb i wahoddiadau i gymryd rhan mewn addoliadau ar y Sul lle maent yn gadael i

garcharorion wybod am eu bodolaeth. Mae'r ymweliadau hyn yn eu galluogi i greu cysylltiadau ag unigolion sy'n ceisio cefnogaeth benodol ar ôl cael eu rhyddhau.

CAPLANIAETH GYMUNEDOL

6.3.1 Mae'r rhaglen Caplaniaeth Gymunedol yn parhau i fod yn llwyddiannus iawn mewn delio ag ail-droseddu, bob tro'n addasu ei hun i ddiwallu anghenion y carcharorion mae'n eu cefnogi mewn amgylchedd sydd wastad yn newid ac mae hynny'n her. Mae'r menter a sefydlwyd â CEM Eastwood Park yn profi I fod yn hynod o lwyddiannus. Mae rhaid i garcharorion y sefydliad hwn gyrraedd meini prawf arbennig ac mae ganddynt gysylltiadau wedi eu diffinio â charcharorion yn CEM Abertawe. Mae pawb sy'n ymgysylltu â'r tîm yn gwerhfawrogi'n fawr ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth, yr arweiniad a chymorth ymarferol maent yn ei dderbyn. Mae'r prosiect yn parhau i newid bywydau.

ADRAN 7 Gwaith yr IMB

IMB YN ABERTAWE

7.1.1 Dechreuodd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a't Swyddog Hyfforddi (BDO) are u gwaith ym mis Ionawr 2013. Eleni mae'r Bwrdd wedi ymgymryd ag ymgyrch recriwtio i sicrhau bydd yn gweithredu'n gyflawnyn 2014. Mae'r sefyllfa hon wedi codi o ganlyniad o roi ar waith cod ymarfer diweddar OCPA, a wnelo hyd gwasanaeth ar gyrff cyhoeddus.

AELODAU'R BWRDD

Chair	Mrs K Andrew UH
Is-Gadeirydd	Mr P Dwan UH
Swyddog Datblygu'r Bwrdd	Mr M Beake
	Mr D Bentley Miller UH
	Mrs S Kanish
	Mr B Maskell UH
	Dr Y B Mathur
	Mrs J Michael
	Mrs J Osborne UH
	Mr P Owen UH
	Mr B Thompson
	Mr C Walters
Clerc i'r Bwrdd	Mrs Lisa Jee/Mr Emeil Khalil

CEISIADAU I'R IMB

7.1.2 Mae gan garcharorion yr hawl i gyfeirio cwynion i'r IMB a gallent ofyn am atgyfeiriad i'r Bwrdd llawn. Yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn, nid oes yr un cais at y Bwrdd llawn wedi bod. Mae 31 o geisiadau wedi bod I'r IMB, sy'n llai na'r llynedd ond o hyd yn arbennig o isel ac yn adlewyrchu ymrywmiad y staff yn Abertawe I ddelio â'r mwyafrif o broblemau sy'n cael eu codi gan garcharorion. Yn ogystal â cheisiadau ysgrifenedig, mae aelodau o'r Bwrdd yn delio â cheisiadau llafar are u hymweliad rota neu ar unrhyw adeg arall maent yn y Carchar. Mae gan y Bwrdd flychau wedi eu marcio ac o dan glo ar bob adain, ac fe'u gwacheir yn ddyddiol yn ystod yr wythnos gwaith.

Mae ceisiadau wedi eu dadansoddi fesul categori

Categori	07/08	08/09	09/10	10/11	11/12	12/13
Bwyd	3	0	1	1	0	3
Eiddo	4	0	4	0	4	1
Meddygol	14	6	13	4	8	8
Ymweliadau	0	5	4	4	6	3
Trosglwyddiad	5	3	2	2	1	2
Dyfarniadau	0	0	1	0	0	0
Post	0	1	1	1	0	1
Cyflwr Cell	3	1		1	2	2
Dedfryd	5	5	4	0	1	0
Hiliaeth	3	0		0	1	
Bwlio	1	3	2	0	4	1
Amrywiol	18	17	11	9	6	10
CYFANSWM	56	41	43	22	33	31

Cwynion a dderbyniwyd gan yr IMB ttrwy'r system cwynion mewnol.

Rhif y Gŵyn	Mater	Math o Gŵyn
SWC/12.06/05	Presgripsiwn	Cyfrinachol
SWC/12.07/08	Gwaith	Cyfrinachol
SWC/12.08/03	Cyhuddiad cyffuriol	Cyfrinachol
SWC/12.09/03	Meddygol	Cyfrinachol
SWC/12.09/06	Staff	Cyfrinachol
SWB/12.09/12	Staff	Safonol
SWC/12.10/05	Trosglwyddiad	Cyfrinachol
SWC/12.11/01	Rhybudd IEP	Cyfrinachol
SWC/12.11/02	Cat D	Cyfrinachol
SWC/12.12/05	Eiddo	Cyfrinachol
SWC/13.02/04	Cat D	Cyfrinachol
SWC/13.02/05	Cyngor Cyfreithiol	Cyfrinachol
SWC/13.03/04	Staff	Cyfrinachol
SWB/13.03/02	Meddygol	Cyfrinachol
SWC/13.04/04	Meddyginiaeth	Cyfrinachol
SWC/13.05/01	Gwaith	Cyfrinachol
SWC/13.05/04	Dentist	Cyfrinachol
SWC/13.05/07	Meddygol	Cyfrinachol
SWC/13.05/10	Papur Newydd	Cyfrinachol
SWC/13.05/11	Meddygol	Cyfrinachol
SWC/13.05/13	Optegydd	Cyfrinachol
SWC/13.05/14	Gwaith	Cyfrinachol
SWC/13.05/17	Cantfn	Cyfrinachol

7.2.3 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD O'R BWRDD

Mynychodd pob aelod o'r Bwrdd y nifer o gyfarfodydd misol y Bwrdd trwy gydol y flwyddyn.

7.2.4. ANERCHIADAU

Rhoddir anerchiadau gan aelodau'r Bwrdd i wahanol grwpiau yn eu hysbysu o'r ggwaith a ymgwymerir gan y Byrddau Monitro Annibynol.

7.2.5. YSTADEGAU'R BWRDD

Cworwm o Aelodau'r Bwrdd a argymhellir	12
Nifer o Aelodau ar ddechrau cyfnod yr adroddiad	13
Nifer o Aelodau ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad	12
Nifer o Aelodau'n gaedael oddi mewn i gyfnod yr adroddiad	1
Cyfanswm nifer o ymweliadau â'r Carchar (ac eithrio Cyfarfodydd Misol)	140
Cyfanswm nifer o geisiadau ysgrifenedig a dderbyniwyd	31

Yn anffodus, ar nifer o flynyddoedd o wasanaeth ymroddedig i'r Bwrdd, cynigiodd Mrs Suman Kanish ei hymddiswyddiad. Hoffwn ni gymryd y cyfle hwn i ddiolch yn ffurfiol i Mrs Kanish am eich chyfraniad ardderchog i waith y Bwrdd.